
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llanfihangel y Pennant, Cader Idris

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

Pellter: 16km (10 milltir)

Hyd: 7 awr


Math o daith: Yno ac yn ôl

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20231127/2015




O’r maes parcio, trowch i’r dde a dilyn y ffordd gul i fyny’r dyffryn. Ar ôl oddeutu chwarter milltir, byddwch yn mynd heibio ffermdy Tŷ’n y Fach ar y dde.





Croeswch y bont dros Afon Cader. Byddwch yn gweld bwthyn ar eich dde sydd wedi mynd yn adfail â charreg goffa arno. Dyma oedd cartref Mary Jones.




Ewch drwy’r giât wrth ymyl hen ffermdy Gwastadfryn. O hyn ymlaen mae’r llwybr yn fwy garw, ac yn dechrau dringo nes cyrraedd giât arall.




Ewch drwy giât arall uwchben y blanhigfa larwydd. Byddwch yn gweld crwmp Mynydd Pencoed ar eich dde. Parhewch nes cyrraedd giât arall wrth ymyl ysgubor gerrig ar eich chwith.





Ewch drwy’r giât wrth y ’sgubor a throwch yn syth i’r dde i ddilyn y llwybr troed cyhoeddus. Bydd y llwybr wedi ei nodi ag arwyddbost. Dilynwch y llwybr drwy ardal garegog gan gadw’r ffens a’r afon ar eich dde.




Croeswch yr afon dros hen bompren garreg hyfryd a dringwch i fyny’r llwybr serth. Bydd y llwybr yn gwyro’n sydyn i’r dde gan ddod at giât a chamfa. Croeswch y gamfa a dringwch yn igam-ogam hyd nes i chi gyrraedd wal gerrig. Ar gyrraedd y wal gerrig, mae’r llwybr yn gwyro i’r chwith gan ddilyn y wal. Dilynwch y llwybr, gan gadw’r wal ar eich dde.




Byddwch yn cyrraedd maen hir. Cadwch i’r chwith yn syth ar ôl mynd heibio’r maen a gwyrwch i ffwrdd o’r wal gan gerdded drwy ardal frwynog. Mae’r maen hir yma’n dirnod pwysig ar gyfer eich taith yn ôl, ynghyd â’r postyn marcio pren lle mae’r llwybr yn ailymuno â’r ffordd.




Byddwch yn ail ymuno gyda’r ffordd fynyddig yn y fan hon. Dilynwch y ffordd am oddeutu 900m.




Parhewch ar hyd y llwybr wrth i chi gyrraedd buarth fferm Hafoty Gwastadfryn. Trowch i’r dde yn syth cyn i chi gyrraedd y corlannau defaid ar yr hen fuarth ac ewch dros y gamfa. Bydd y llwybr yn dechrau dringo’n serth ar ôl i chi groesi’r afon. Pan gyrhaeddwch fforch yn y llwybr, gwyrwch i’r dde a dilyn y llwybr a’i nodir gan y postyn cyfeirbwyntio.




Ar ôl dringfa serth, fe fydd y llwybr yn cyrraedd pen y grib ac yn gwyro i'r dde wrth ffens wifren. Ar ôl ychydig lathenni, fe gyrhaeddwch groesffordd o ffensys gyda giât. Ewch drwy'r giât fetel a dilynwch y llwybr amlwg i'r dde. Dyma'r fan lle mae Llwybr Pilin Pwn (Tŷ Nant) yn ymuno â'r llwybr i gopa Cader Idris.




Mae'r rhan olaf o'r daith yn mynd trwy dir serth a mynyddig iawn. Argymhellir gwisgo esgidiau addas gan fod y ddaear yn greigiog ac yn aml yn rhydd dan draed. Mae'r llwybr yn dilyn cyfres o rannau igam-ogam, yn serth a gwastad bob yn ail. Parhewch nes cyrraedd pen yr esgyniad lle cewch fwynhau golygfa o Ben y Gader.




Ar ddiwedd yr adran hon fe ddowch at ddiwedd Bwlch Cyfrwy. Dilynwch y llwybr i'r dde gan fynd heibio i adfeilion cysgodfan gerrig gron ar eich dde. Byddwch yn ofalus dros y creigiau, yn enwedig pan fydd hi'n wyntog.




Cyn bo hir, fe ddowch at greigiau rhyfeddol a'i adnabyddir fel creigiau 'lafa clustog'. Byddai'r creigiau hyn wedi bod ar wely'r môr cyntefig filiynau o flynyddoedd yn ôl. Parhewch ar hyd y llwybr i'r chwith o'r creigiau. Yn fuan, fe ddowch at sgrambl creigiog byr sy'n arwain i fyny tuag at y copa.




Wrth agosáu at y copa, byddwch yn mynd heibio i weddillion hen le tân ar eich dde. Parhewch i ddringo tuag at y copa sydd bellach ond ychydig bellter i ffwrdd. Saif lloches, sy'n cael ei chynnal gan Wasanaeth Wardeniaid Parc Cenedlaethol Eryri, ger carnedd y copa.




Wrth i chi ddychwelyd, bydd y llwybr yn mynd heibio i weddillion yr hen le tân eto. Parhewch i gerdded i lawr y sgrambl creigiog ac anelwch yn ôl tuag at y creigiau 'lafa clustog'. Sicrhewch eich bod yn cadw'r clogwyni mawr ar eich ochr dde bob amser.